

CABINET

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo ddydd Mawrth, 19 Rhagfyr 2023 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Jason McLellan, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd; Gill German, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd; Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol; Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol; Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant; Win Mullen-James, Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio; Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau; ac Emrys Wynne, Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth

Arsylwyr: Y Cynghorwyr Ann Davies, Chris Evans, Bobby Feeley, Karen Edwards, Pauline Edwards, James Elson, Huw Hilditch-Roberts, Hugh Irving, Alan James, Brian Jones, Delyth Jones, Terry Mendies, Merfyn Parry, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, Peter Scott, David Williams, a Huw Williams

HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (GB); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg (NS); Llywodraethu a Busnes/Swyddog Monitro (GW), a'r Amgylchedd a'r Economi (TW); Penaethiaid Gwasanaeth: Cyllid ac Archwilio (ET), Gwasanaeth Tai a Chymunedau (LG), Gwasanaeth Digartrefedd a Gofal Cymdeithasol i Oedolion (AL), Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol (PJ) a'r Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Pobl (CR); Swyddog Arweiniol – Tai Cymunedol (GD); Rheolwr Gwasanaeth – Cymorth Busnes a Chymunedau (NJ); Rheolwr Gweithrediadau Eiddo – Gwasanaeth Tai a Chymunedau (MC); Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu (SL); Rheolwr Caffael Cydweithredol a Fframwaith (KB), a Gweinyddwyr Pwyllgorau (KEJ a RTJ [Gweddarlledu])

1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2023 i'w cymeradwyo.

PENDERFYNWYD derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2023 a chadarnhau eu bod yn gywir.

5 CYNNIG ARBEDION LLYFRGELL/SIOP UN ALWAD

Cyflwynodd y Cynghorydd Emrys Wynne yr adroddiad a oedd yn amlinellu sut y gellid cyflawni arbedion trwy leihau Gwasanaethau Llyfrgelloedd/Siopau Un Alwad.

Roedd y cynnig wedi'i gyflwyno oherwydd yr heriau ariannol digynsail a oedd yn wynebu'r Cyngor a'r gofyniad i bob gwasanaeth ddarparu arbedion sylweddol. Roedd yr adroddiad yn egluro'r arbedion posibl o'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd/Siopau Un Alwad; effaith bosibl yr arbedion; ystyriaethau penodol i'r Cabinet a'r Tîm Gweithredol Corfforaethol i lywio trafodaethau'r dyfodol, ac roedd yn argymhell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r cynnig i leihau oriau agor Llyfrgelloedd/Siopau Un Alwad o tua 40%, ynghyd ag arbedion cysylltiedig mewn meysydd gwasanaeth eraill, er mwyn cyflawni arbediad disgwylidig o £360,000.

Roedd y Cynghorydd Wynne yn glir nad oedd yn gyfforddus â'r cynnig, ond o ystyried y cyd-destun ariannol, roedd angen gwneud llawer o benderfyniadau anodd ac eglurodd y rhesymeg sy'n sail i'r dewis i leihau oriau agor ar draws pob llyfrgell yn hytrach na chau llyfrgelloedd unigol yn llwyr fel ffordd fwy teg o gyflawni arbedion. Roedd newidiadau wedi'u gwneud i'r cynnig gwreiddiol i ymateb i adborth o'r ymgynghoriad. Roedd y cynnig presennol yn seiliedig ar leihau oriau agor o 40% yn hytrach na 50% gan arwain at agor llyfrgelloedd am 30 awr ychwanegol yr wythnos yn gyffredinol a oedd yn darparu tua £90,000 yn llai o arbedion ond a oedd hefyd yn galluogi grwpiau defnyddwyr trydydd parti i ddefnyddio adeiladau'r llyfrgell y tu allan i oriau agor arferol llyfrgelloedd. Roedd y Cynghorydd Wynne o'r farn fod y cynnig presennol yn fwy cytbwys ac yn well i ddefnyddwyr y llyfrgell a staff na'r cynnig blaenorol. Roedd y cynnig yn diogelu llyfrgelloedd i'r graddau yr oedd hynny'n bosibl ar hyn o bryd, a byddai'n sicrhau nad oedd rhaid i unrhyw lyfrgell gau. Gyda thristwch mawr, argymhellodd y Cynghorydd Wynne y cynnig, ond roedd yn credu mai hwn oedd y trefniant gorau posibl i lyfrgelloedd yn y sefyllfa ariannol bresennol.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: yr Amgylchedd a'r Economi y broses a arweiniodd at y cynnig presennol fel rhan o'r broses ehangach o osod y gyllideb er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gosod cyllideb gytbwys, gyda'r cynnig yn newid dros amser i ymateb i adborth o'r ymgynghoriad. Ystyriwyd bod y cynnig yn gymesur a realistig o ystyried y sefyllfa ariannol a lefel yr arbedion gofynnol. Dywedodd y Pennaeth Tai a Chymunedau fod y toriad arfaethedig i'r gyllideb tua 21% o gyllideb y gwasanaeth ac roedd yn cynnwys lleihau oriau agor llyfrgelloedd a rhai arbedion cysylltiedig mewn rhannau eraill o'r gwasanaeth hefyd, yr oeddent yr un mor werthfawr. Tynnodd sylw at Atodiad 2 a oedd yn egluro'r model gwasanaeth 40% arfaethedig a oedd wedi'i ddatblygu trwy ymgynghori ag undebau a staff. Pe bai'r Cabinet yn cymeradwyo'r cynnig, byddai ymgynghoriad staff ffurfiol a allai arwain at fân adolygiadau gweithredol, ond y model hwn yn fras fyddai'r un a fyddai'n cael ei weithredu.

Diolchodd y Cabinet i'r Aelod Arweiniol am ei waith wrth gyflwyno cynnig mor anodd ond cytbwys gan roi ystyriaeth i'r holl ffactorau. Mynegodd y Cynghorydd Julie

Matthews ei rhwystredigaeth dros y toriadau sydd wedi cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU dros yr 13 mlynedd diwethaf ac effaith gronnydd y cynni ar arian Llywodraeth Leol sydd wedi arwain at y sefyllfa ariannol enbyd bresennol. Er nad oedd neb o blaid toriadau i'r gwasanaeth llyfrgelloedd, derbyniwyd y byddai angen i bob gwasanaeth wneud arbedion er mwyn darparu cyllideb gytbwys, o ystyried y sefyllfa ariannol enbyd, ac yn y cyd-destun hwnnw, roedd y Cabinet yn ystyried bod y cynnig yn deg a chymesur. Fodd bynnag, roedd y Cabinet yn awyddus i osgoi unrhyw doriadau pellach i'r gwasanaeth llyfrgelloedd wrth symud ymlaen a lliniaru'r effaith. Gofynnwyd am sicrwydd yn hynny o beth a cheisiadau am adolygiad o'r model arfaethedig er mwyn sicrhau cydraddoldeb o ran gostyngiadau i oriau agor llyfrgelloedd ar draws y sir (gan ystyried cyfraniadau Cynghorau Dinas/Tref); gwaith pellach sy'n cynnwys yr holl fudd-ddeiliaid yn cydweithio i edrych ar fodolau amgen o ddarparu gwasanaethau llyfrgell a thwf yn y dyfodol a sicrhau bod canolfannau/mannau diogel a chynnes yn cael eu darparu ym mhob tref/cymuned wrth symud ymlaen, i bobl eu defnyddio. Amlygwyd yr ymgysylltu cadarnhaol a'r adborth gwerthfawr o'r broses ymgynghori ynghyd â sut yr oedd yr adborth hwnnw wedi newid y cynnig gwreiddiol a chwestiynau pellach yn hynny o beth.

Ymatebodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion i'r materion a godwyd fel a ganlyn –

- cytunwyd i adolygu oriau agor llyfrgelloedd er mwyn sicrhau bod y gostyngiadau'n gytbwys a theg ar draws pob llyfrgell a bod ystyriaeth deg yn cael ei rhoi i gyfraniadau ariannol Cynghorau Dinas/Tref
- byddai rhagor o waith yn cael ei wneud gyda budd-ddeiliaid â diddordeb gan gynnwys staff, grwpiau cymunedol a Chynghorau Dinas/Tref/Cymuned er mwyn ystyried modelau amgen ar gyfer darparu gwasanaethau llyfrgell gyda'r bwriad o'u diogelu ar gyfer y dyfodol a thyfu'r ddarpariaeth honno, lliniaru toriadau a cheisio ffynonellau incwm eraill
- roedd y dewis i leihau oriau agor dros gau llyfrgelloedd yn golygu y byddai'n haws ailgyflwyno'r oriau agor blaenorol neu ehangu ddarpariaeth yn y dyfodol pe bai'r sefyllfa ariannol yn gwella neu pe bai cyllid amgen ar gael, ac roedd pob llyfrgell yn hyfyw o bosibl i'w defnyddio gan y gymuned y tu allan i'r oriau agor
- byddai llawer o waith yn cael ei wneud i ddiogelu'r gwasanaeth llyfrgell rhag toriadau yn y gyllideb yn y dyfodol, a fyddai'n bendant yn ddewis olaf, ac ni ragwelwyd hyn ar hyn o bryd
- eglurwyd cynlluniau i'r gymuned ddefnyddio adeiladau llyfrgell y tu allan i oriau agor llyfrgelloedd gyda model mwy masnachol yn cael ei ddatblygu i hwyluso'r ddarpariaeth honno a diwygiadau i oriau agor yn dilyn adborth o'r ymgynghoriad, gyda llai o achosion o agor am ran o'r diwrnod, ac addasiadau i ddiwrnodau agor
- amlygwyd defnyddio llyfrgelloedd fel canolfannau clyd/mannau diogel a'r nod o ddiogelu ac ehangu'r ddarpariaeth honno yn y gymuned wrth ystyried y model newydd; roedd y Tîm Gwydnwch Cymunedol wedi bod yn cyfeirio cyllid i'r trydydd sector er mwyn darparu canolfannau clyd/bwyd ar draws y sir a chytunwyd y dylid cynnal ymarfer mapio ar draws y sir â'r bwriad o gynyddu'r ddarpariaeth honno.

Agorodd yr Arweinydd y drafodaeth i rai nad oeddent yn aelodau'r Cabinet, a chymerwyd cyfle i fynegi eu barn a gofyn cwestiynau am y cynnig.

Roedd prif feysydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar y canlynol –

- Eglurodd y Cynghorydd Peter Scott sefyllfa Cyngor Dinas Llanelwy, o ystyried eu bod yn cyfrannu'n ariannol i'r gwasanaeth llyfrgell yn Llanelwy ond byddai eu horiau agor yn lleihau o hyd. Roedd Cyngor Tref Rhuddlan mewn sefyllfa debyg. Roedd swyddogion yn gwerthfawrogi'r dull partneriaeth gyda'r ddau Gyngor. Roedd y model arfaethedig yn nodi'r oriau agor ar gyfer llyfrgelloedd unigol ac roedd wedi rhoi ystyriaeth i'r cyfraniadau ariannol ar gyfer llyfrgelloedd Llanelwy a Rhuddlan. Pe bai'r cyfraniad yn cael ei dynnu'n ôl, byddai angen lleihau'r oriau ymhellach. Mynegodd y Cynghorydd Arwel Roberts farn Cyngor Tref Rhuddlan a'u siom am y gostyngiadau arfaethedig ond roedd yn gobeithio y byddai cyfraniadau ariannol yn parhau o ystyried pwysigrwydd y gwasanaeth. Roedd swyddogion yn croesawu trafodaethau pellach gyda'r ddau Gyngor am y ffordd ymlaen.
- Roedd y Cynghorydd Bobby Feeley yn erbyn y cynnig, ac amlygodd bwysigrwydd y gwasanaeth fel a amlinellwyd yn yr adroddiad, ynghyd â'r staff gwerthfawr a ffyddlon, a'r gwrthwynebiad llethol i'r toriadau a ddangoswyd yn yr ymgynghoriad, ac roedd yn teimlo bod gostyngiad o 21% mewn gwasanaeth mor fach yn annheg ac anghymesur. Ymatebodd y swyddogion i'r pwyntiau hynny a phwyntiau eraill a godwyd fel a ganlyn –
 - nid oedd gwerth y gwasanaeth yn cael ei amau, ac nid oedd y cynnig wedi'i gyflwyno'n llawen nac ysgafn, ond yn hytrach i ymateb i'r sefyllfa ariannol enbyd
 - nid oedd y gwasanaeth llyfrgell wedi'i dargedu; roedd gofyn i bob gwasanaeth ganfod arbedion sylweddol a byddai angen gwneud penderfyniadau anodd eraill yn y dyfodol
 - roedd yr adroddiad yn egluro'r uchafswm costau diswyddo ond nes i benderfyniad gael ei wneud, ni ellid dechrau trafodaethau ffurfiol gyda staff a gallai'r costau ddod i ddim, yn dibynnu a ellid adleoli pob aelod o staff a oedd mewn perygl
 - roedd yr effaith ar wasanaethau eraill wedi'i drafod gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac mae'n bosibl y bydd angen ffyrdd mwy creadigol o gael mynediad at wasanaethau y tu allan i oriau'r llyfrgell, a byddai hyn yn cael ei drafod ymhellach pan fyddai penderfyniad wedi'i wneud
 - byddai gan y gwasanaeth llyfrgell rôl ganolog i'w chwarae o hyd o ran cydlyniant cymunedol a darparu manau diogel a chanolbwyntiau cymunedol ond mae'n bosibl y bydd angen i rai o'r rhain gael eu gwneud mewn ffordd wahanol wrth symud ymlaen
 - eglurwyd y broses gwneud penderfyniadau, gyda'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn swyddogaeth weithredol sy'n gyfrifoldeb i'r Cabinet; roedd swyddogion wedi gofyn i'r eitem gael ei hystyried mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu ond roedd y cais wedi'i wrthod
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts at yr Asesiad o Effaith ar Les, ac nad oedd unrhyw effaith gadarnhaol ar nodau Lles, ac effaith ar ddefnydd o ganol y dref, incwm cysylltiedig a diswyddo tebygol. Ni ellid darparu unrhyw enghreifftiau o adfer gwasanaethau unwaith iddynt gael eu torri. Dangosodd yr ymgynghoriad wrthwynebiad llethol i'r cynnig, a fyddai'n cael effaith go iawn ar breswylwyr ar draws y sir. Gyda hynny mewn cof, ac o ystyried mai costau staffio oedd yr arbediad mwyaf, gofynnodd i'r Cabinet ystyried canlyniad y cynllun diswyddiad gwirfoddol i staff ym mis Ionawr, cyn gwneud penderfyniad

am y cynnig. Cydnabu'r Arweinydd beth oedd gwerth y gwasanaeth, ac roedd y Cabinet wedi cydnabod hynny, ond roedd angen arbedion er mwyn gosod cyllideb gytbwys. Gwnaeth y Pennaeth Cyllid ac Archwilio atgoffa'r Cabinet am y pwysau cyllidebol enfawr sy'n wynebu'r Awdurdod, a'r angen i wneud penderfyniadau amserol er mwyn gosod y gyllideb ym mis Ionawr. Ychwanegodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis na fyddai'r arbedion a wneir o'r cynllun diswyddiad gwirfoddol yn gwneud gwahaniaeth digonol a byddai angen gwneud penderfyniad am y cynigion ar gyfer y gwasanaeth llyfrgelloedd fel rhan o'r broses ehangach o sicrhau bod cyllideb gytbwys yn cael ei gosod

- Eglurodd y Cynghorydd Pauline Edwards pam na allai gefnogi'r cynnig, gan amlygu'r sefyllfa drychinebus o golli staff gwerthfawr a'r effaith ar breswylwyr, yn enwedig o ran canolfannau clyd/mannau diogel, y dylid rhoi sylw iddi o flaen llaw. Ymatebodd swyddogion i gwestiynau a godwyd gan y Cynghorydd Edwards am yr amserlen ar gyfer y cynnig; talodd deyrnged i'r staff medrus a phrofiadol a chafwyd trafodaethau pellach am fodlau darparu er mwyn lleihau'r effaith ar staff, gyda dewis i adleoli mewn rhan arall o'r Cyngor; a darparodd sicrwydd y byddai trafodaethau'n parhau trwy gydol y broses wrth symud ymlaen o ran modelau amgen ar gyfer canolfannau clyd/mannau diogel
- Roedd y Cynghorydd Ann Davies o'r farn y byddai effaith y toriadau i wasanaethau llyfrgelloedd yn achosi pwysau mewn meysydd gwasanaeth eraill a chwestiynodd ddyletswydd gyfreithiol y Cyngor. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes at y ddeddfwriaeth berthnasol gan ddweud, er bod dyletswydd i ddarparu gwasanaeth llyfrgelloedd effeithlon, Awdurdodau Lleol fyddai'n ystyried sut i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw yng ngoleuni'r adnoddau a oedd ar gael iddynt
- Roedd y Cynghorydd Hugh Irving yn cefnogi barn y Cynghorydd Bobby Feeley a'r Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts, ac roedd yn teimlo y dylid gwneud rhagor o waith ar y cynnig cyn i benderfyniad terfynol gael ei wneud; amlygodd yr effaith ar nifer yr ymwelwyr â'r dref hefyd. Ailadroddodd yr Arweinydd yr angen i wneud penderfyniadau mewn modd amserol er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys. Cadarnhaodd Swyddogion fod llyfrgelloedd yn cael effaith economaidd gadarnhaol ar ganol trefi, a dyna pam yr oedd modelau amgen yn cael eu harchwilio i ddefnyddio adeiladau llyfrgell y tu allan i oriau agor llyfrgelloedd.

Diolchodd y Cynghorydd Emrys Wynne i bawb a oedd wedi cyfrannu at y drafodaeth ac a oedd wedi cymryd sylw o'r materion a godwyd, â'r bwriad o weithio gyda swyddogion a'u cynnwys yn y cynigion i liniaru effeithiau. Ailadroddodd fod y penderfyniad yn un anodd i'w wneud ond rhoddodd sicrwydd y byddai'n gweithio gyda swyddogion i adfer gwasanaethau llyfrgelloedd a chynyddu oriau agor pan fyddai'r sefyllfa ariannol yn gwella.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn –

- nodir adroddiad ac yn cymeradwyo'r cynnig i leihau oriau agor Llyfrgelloedd/Siopau Un Alwad o oddeutu 40%, ynghyd ag arbedion cysylltiedig mewn rhannau eraill o'r gwasanaeth, i roi arbediad disgwylledig o £360,000, a*
- cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

6 GOSOD RHENT TAI A CHYLLIDEBAU CYFALAF A REFENIW TAI 2024/25

Cyflwynodd y Cynghorydd Rhys Thomas yr adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer y cynnydd rhent blynyddol ar gyfer Tai Sir Ddinbych, Cyllidebau Cyfalaf a Refeniw'r Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2024/25 a Chynllun Busnes y Stoc Dai.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys y sefyllfa derfynol ddiweddaraf a ragwelwyd ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai a'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2024/25 a oedd wedi'i chyfrifo i alluogi darparu gwasanaethau refeniw, y rhaglen buddsoddi cyfalaf ac i ddatblygu'r rhaglen adeiladu newydd. O ran y cynnydd rhent blynyddol, roedd Llywodraeth Cymru wedi gosod uchafswm cynnydd rhent o 6.7% a chynigiwyd cynyddu rhenti wythnosol o hynny oherwydd y pwysau ar y Cyfrif Refeniw Tai i fuddsoddi mewn cartrefi er mwyn cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru a cheisio cyrraedd targed y Cynllun Corfforaethol ar gyfer cartrefi newydd.

Dywedodd y Cynghorydd Thomas fod 72% o denantiaid y Cyngor wedi cael cefnogaeth gyda'u taliadau rhent; byddai'r Cyngor yn cefnogi'r 28% arall o denantiaid pe baent mewn anhawster ariannol; cytunodd 85% o ymatebion i'r arolwg tenantiaid fod eu rhenti'n cynnig gwerth am arian ac ni wnaeth y Cyngor na Llywodraeth Cymru droi tenantiaid allan oherwydd caledi ariannol. Roedd y Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi rhoi ystyriaeth i'r adroddiad a chymeradwyo'r cynnwys.

Eglurodd Pennaeth Tai a Chymunedau fod oedran y stoc tai presennol yn golygu bod angen buddsoddi'n gyson ynddo a bod bodloni Safonau Ansawdd Tai Cymru newydd yn creu pwysau ychwanegol. Roedd pwysau i ariannu rhaglenni adeiladu newydd hefyd gyda chyfnodau heriol o'n blaenau. Cynigiwyd cynyddu rhent i'r uchafswm a osodwyd ond roedd ffydd bod y rhent yn fforddiadwy i denantiaid. Rhoddodd y Swyddog Arweiniol – Tai Cymunedol drosolwg o'r asesiad fforddiadwyedd ac eglurodd sut oedd y rhent wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio model rhent byw Sefydliad Joseph Rowntree sy'n seiliedig ar y 30% o incymau isaf Sir Ddinbych, gyda rhenti nad ydynt yn uwch na 28% o incwm wythnosol yr enillion hynny. Roedd y gwaith hwnnw wedi dangos bod rhenti'n fforddiadwy, a byddai'r holl incwm o renti yn cael ei ail-fuddsoddi yn y stoc tai.

Soniodd y Cynghorydd Huw Williams, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau am drafodaethau'r Pwyllgor Craffu yn dilyn ystyried yr adroddiad ar 7 Rhagfyr 2023. Talodd y Cynghorydd Williams deyrnged i waith y Tîm Tai Cymunedol gan ddiolch iddynt am eu holl waith caled a'u cyflawniadau, a dywedodd fod yr adborth o'r Pwyllgor Craffu wedi bod yn hynod o gadarnhaol a bod argymhelliad yr adroddiad wedi'i gymeradwyo. Roedd un maes pryder yn ymwneud â gwres ffynhonnell aer a'r angen i edrych ar wresogi eilaidd i sicrhau nad oedd tenantiaid heb wres am unrhyw gyfnod. Cadarnhaodd Pennaeth Tai a Chymunedau fod y mater yn cael ystyriaeth bellach a bod asesiadau risg yn cael eu cynnal. Diolchodd yr Arweinydd i'r Cynghorydd Williams am ei adborth ar ôl y Pwyllgor Craffu a chroesawodd fwy o'r dull hwnnw wrth symud ymlaen.

Roedd prif feysydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar y canlynol –

- Eglurwyd bod y Cyfrif Refeniw Tai wedi'i glustnodi a'i fod i gyd ar wahân i gyllideb y Cyngor a'r broses o osod y gyllideb
- rhoddodd Aelodau longyfarchiadau i'r Tîm Tai Cymunedol am y cyflawniadau o ran tai cymdeithasol, o ran gwella darpariaeth bresennol a chreu tai cymdeithasol newydd, er budd tenantiaid a phreswylwyr y sir
- eglurodd swyddogion y gwelliant i'r stoc tai Cyngor presennol trwy'r rhaglen ôl-osod gyda chyllid grant yn cael ei ddarparu i gyflawni gwelliannau fel paneli solar, toeau newydd ac inswleiddio waliau allanol ynghyd â gwelliannau a gynlluniwyd sy'n codi o Safon Ansawdd Tai Cymru newydd o ran 'gwres fforddiadwy' a gwelliannau ynni trwy bympiau gwres yr awyr, paneli solar ac inswleiddio waliau allanol a oedd yn creu pwysau cyllideb newydd wrth symud ymlaen
- cyfeiriwyd at yr ymrwymiad yn y Cynllun Corfforaethol i greu 170 o gartrefi ychwanegol a soniodd swyddogion am nifer o ddatblygiadau sydd bron â'u cwblhau yn y Rhyl, Prestatyn a Dinbych ac roedd gwaith yn mynd rhagddo i brynu hen eiddo'r Cyngor yn ôl hefyd a dod â nhw'n ôl i fyny i'r safon
- roedd tai yn flaenoriaeth gorfforaethol, a chydabuwyd nad oedd y galw cyffredinol am dai yn cael ei ateb ac roedd llawer o waith yn mynd rhagddo i ddiwallu'r angen hwnnw yn y ffordd orau a mynd i'r afael â digartrefedd yn y sir. Roedd mater Tai Amlfeddiannaeth yn dal i gael sylw trwy bolisiâu cynllunio a thimau gorfodi o ran caniatâd cynllunio ac roedd yn cael ystyriaeth fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol hefyd. Deiliadaeth gymysg o dai rhent cymdeithasol a thai sector preifat oedd sylfaen cymuned ffyniannus.

Roedd yr Arweinydd yn croesawu'r adborth cadarnhaol gan Aelodau am waith y Tîm Tai Cymunedol a diolchodd i swyddogion am eu cyfraniadau.

PENDERFYNWYD –

- bod Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2024/25 (Atodiad 1 i'r adroddiad) a Chynllun Busnes y Stoc Dai (Atodiad 2 i'r adroddiad) yn cael ei fabwysiadu;*
- cynyddu rhenti anheddau'r Cyngor yn unol â Pholisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhenti Tai Cymdeithasol i rent wythnosol cyfartalog o £109.34, i'w weithredu o ddydd Llun, 1 Ebrill 2024;*
- nodi'r adroddiad ychwanegol (Atodiad 3 yr adroddiad) ar yr ystyriaethau y rhoddir sylw iddynt wrth benderfynu ar yr argymhelliad hwn, a*
- bod y Cabinet yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 4 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

7 CAFFAEL PROSIECT CEFNOGI LLETY CYNALIADWY NEWYDD (ATAL DIGARTREFEDD)

Cyflwynodd y Cyngorydd Rhys Thomas yr adroddiad a oedd yn nodi cynigion ar gyfer prosiect cefnogi holistaidd newydd mewn perthynas â thai a cheisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddechrau caffael y gwasanaeth.

Dyluniwyd y prosiect i gefnogi pobl sy'n byw yn Sir Ddinbych i gynnal eu llety ac atal digartrefedd ac roedd yn rhan o broses ailgomisiynu gwasanaethau cefnogi mewn perthynas â thai er mwyn alinio â'r trosglwyddo i Ailgartrefu Cyflym. Byddai'r contract yn cael ei ariannu'n llawn gan y Grant Cymorth Tai a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru a byddai am gyfnod o dair blynedd a bydd dewis i'w ymestyn am ddwy flynedd arall, yn amodol ar berfformiad boddhaol, cyllid parhaus a pherthnasedd strategol. Byddai'r gwasanaeth yn disodli tri gwasanaeth cymorth yn ôl yr angen presennol sy'n cael eu darparu gan dri sefydliad ar wahân. Roedd manylion am y caffael wedi'u nodi ar y Ffurflen Gomisiynu a oedd wedi'i hatodi i'r adroddiad.

Gwnaeth y Rheolwr Gwasanaeth – Cymorth Busnes a Chymunedau amlygu'r angen i gynyddu lefel y cymorth i bobl mewn tenantiaethau a pharhau â'r cymorth hwnnw er mwyn sicrhau bod y tenantiaethau hynny'n cael eu cynnal er mwyn osgoi achosion mynych o ddigartrefedd. Roedd cyflenwyr presennol yn cael eu hannog i gydweithio i ddarparu gwasanaeth amddisgyblaethol. Er nad oedd arwydd o werth y contract wedi'i roi, rhagwelwyd y byddai'r prosiect yn arwain at arbediad a fyddai'n mynd i'r afael â phwysau mewn rhannau eraill o'r gwasanaeth. Cyfeiriodd y Cynghorydd Julie Matthews at yr Asesiad o Effaith ar Les a chroesawodd y symudiad at ganlyniadau sy'n canolbwyntio ar unigolion a gofynnodd ragor o gwestiynau yn hynny o beth. Eglurodd swyddogion y broses bresennol a'r bwriad i sicrhau'r ddarpariaeth cymorth gywir wedi'i theilwra i'r unigolyn/aelwyd er mwyn diwallu eu hanghenion a chynnal eu tenantiaeth trwy gydol y cyfnod a byddai'r dull hwnnw'n cael ei drosglwyddo i bob darparwr ar gyfer y prosiect newydd.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn –

- (a) *cymeradwyo cychwyn y broses gaffael fel sydd wedi'i nodi ar y Ffurflen Gomisiynu yn Atodiad 1 yr adroddiad, a*
- (b) *cadarnhau ei fod wedi darllen ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3 yr adroddiad).*

8 CONTRACT AR GYFER CLUDO, DIDOLI A BROCERA DEUNYDD AILGYLCHU CYMYSG SYCH

Cyflwynodd y Cynghorydd Barry Mellor yr adroddiad am gontract y Cyngor ar gyfer prosesu Deunydd Ailgylchu Cymysg Sych (ailgylchu bin glas) a gofynnodd am gymeradwyaeth y Cabinet i ymestyn y contract presennol yn unol â'r Adroddiad Amrywio Contract.

Eglurwyd rhywfaint o gefndir i'r sefyllfa bresennol o ystyried bod contract y Cyngor ar gyfer prosesu Deunydd Ailgylchu Cymysg Sych wedi dod i ben, ond nid oedd disgwyl i'r gwasanaeth casglu deunydd ailgylchu ddechrau tan Chwarter 1 blwyddyn ariannol 2024/25, a fyddai'n golygu bod angen i'r Cyngor wneud trefniadau dros dro tan i'r gwasanaeth newydd ddechrau. Roedd yr adroddiad yn egluro'r rhesymeg a oedd yn sail i'r argymhelliad i ymestyn y contract presennol gyda Shotton Mill gan gynnwys sicrwydd o ran costau/lefelau gwasanaeth; galw anghymesur ar adnoddau presennol sy'n deillio o ymarfer caffael llawn, ac ystyriaethau o ran gwerth am arian.

Atgoffodd y Cynghorydd Mellor yr Aelodau fod y Cyngor yn arfer cael taliad o £25 fesul tunnell am ddeunydd ailgylchu, ond bod rhaid talu swm sylweddol i gael gwared arno ar hyn o bryd. Fodd bynnag, roedd yn falch o gyhoeddi bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi trwydded ar gyfer yr Orsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd a rhoddodd deyrnged i waith caled pawb a fu'n rhan o'r prosiect, a fu'n dasg enfawr a oedd yn dod i'w therfyn, a byddai o fudd i'r Cyngor wrth symud ymlaen. Ychwanegodd yr Arweinydd ei ddiolch i bawb a fu'n rhan o'r prosiect am eu gwaith caled.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet –

- (a) *wedi rhoi ystyriaeth i gynnwys yr Adroddiad Amrywio Contract sy'n cyd-fynd (Atodiad 1 yr adroddiad), a*
- (b) *yn cymeradwyo estyniad i'r contract am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad, h.y. byrddra ac ansicrwydd cyfnod y contract, defnydd gorau o adnoddau a lefel yr hyder fod y telerau a gynigiwyd gan y cyflenwr yn cynnig gwerth am arian.*

9 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yr adroddiad a oedd yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

Rhodddwyd crynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn –

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2023/24 oedd £250.793 miliwn (£233.696 miliwn yn 2022/23)
- rhagwelwyd gorwariant o £3.325 miliwn yn y cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- amlygwyd y risgiau ar hyn o bryd a'r rhagdybiaethau yn ymwneud â chyllidebau corfforaethol a meysydd gwasanaeth unigol
- rhodddwyd manylion arbedion ac arbedion effeithlonrwydd a chynnydd mewn ffioedd a chostau (£8.172 miliwn)
- rhodddwyd diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, Rheoli'r Trysorlys a'r Cynllun Cyfalaf a phrosiectau mawr.

Arweiniodd y Pennaeth Cyllid ac Archwilio yr Aelodau drwy'r adroddiad. Roedd cynnydd bach o ran y gorwariant a ragwelir ar gyllidebau gwasanaethau a'r gyllideb gorfforaethol ac roedd y prif feysydd gorwariant yn dal i fod o ganlyniad i wasgfydd o fewn y Gwasanaethau Digartrefedd a Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol. Nid oedd newidiadau o ran y Cyfrif Refeniw Tai ac o ran ysgolion, roedd cynnydd bach yn y defnydd a ragwelir o gronfeydd wrth gefn y byddai angen i ysgolion eu defnyddio yn ystod y flwyddyn. Roedd yr atodiadau arferol wedi'u cynnwys ar y Cynllun Cyfalaf a Phrosiectau Mawr.

Gofynnwyd i'r Cabinet gymeradwyo sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer gosod cyllideb 2024/25 hefyd ynghyd ag achosion busnes cyfalaf sy'n ymwneud ag Ysgol Bro Cinmeirch ac Ysgol y Llys. Byddai'r ddau brosiect ysgol yn ceisio tynnu 100% o'r costau ariannu o Raglen Grant Cyfalaf berthnasol Llywodraeth Cymru.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: yr Amgylchedd a'r Economi i gwestiwn gan y Cyngorydd Terry Mendies ynghylch gosodiadau mewnol datblygiad Marchnad y Frenhines. Eglurodd fod y cam adeiladu'n tynnu at ei derfyn a'r bwriad oedd cytuno ar natur y gosodiadau terfynol gyda gweithredwr y cyfleuster. Oherwydd nad oedd y bartneriaeth arfaethedig gyda Mikhael Hotel and Leisure Group wedi'i datblygu, byddai gwaith yn cael ei wneud o fewn y cyllid a oedd ar gael i roi gosodiadau yn y cyfleuster fel sy'n briodol er mwyn galluogi agor y cyfleuster. Cytunwyd y byddai'r Cyngorydd Mendies yn codi cwestiynau pellach sy'n ymwneud ag agweddau eraill ar ddatblygiad Marchnad y Frenhines y tu allan i'r cyfarfod oherwydd nad oeddent yn ymwneud ag adroddiad cyllid y Cabinet a oedd yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn –

- (a) *nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2023/24 a'r cynnydd yn ôl y strategaeth y cytunwyd arni;*
- (b) *cymeradwyo Sylfaen y Dreth Gyngor i osod cyllideb 2024/25 fel y manylir yn Atodiad 5 yr adroddiad;*
- (c) *cymeradwyo achos busnes Ysgol Bro Cinmeirch i'w gyflwyno i Raglen Gyfalaf Llywodraeth Cymru fel y manylir yn Adran 6.9 ac Atodiad 6 yr adroddiad, a*
- (d) *cymeradwyo achos busnes Ysgol y Llys i'w gyflwyno i Raglen Gyfalaf Llywodraeth Cymru fel y manylir yn Adran 6.9 ac Atodiad 7 yr adroddiad.*

10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet i'w hystyried, a nododd yr aelodau'r diwygiadau canlynol –

- Pennu Ffioedd Cartrefi Gofal 2024/25 – wedi'i symud o fis Ionawr i fis Mawrth
- Cael gwared ar Fferm Peronne, Dinbych – wedi'i ychwanegu at fis Ionawr

PENDERFYNWYD nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet.

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

O dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, **PENDERFYNWYD** gwahardd y Cyhoedd a'r Wasg o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol, gan y byddai'n debygol y byddai gwybodaeth wedi'i heithrio fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf yn cael ei datgelu.

11 FFRAMWAITH ADEILADU GOGLEDD CYMRU 3 - PENODI CONTRACTWYR

Cyflwynodd y Cyngorydd Julie Matthews yr adroddiad cyfrinachol ar ganlyniad y broses gaffael ar gyfer Cam 3 Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru a cheisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer penodi'r contractwyr llwyddiannus.

Roedd y fframwaith yn gydweithrediad rhwng chwe Awdurdod gogledd Cymru, a Sir Ddinbych oedd yr Awdurdod cynnal, a'r prif nod oedd darparu gwerth am arian a buddion cymunedol ar draws y rhanbarth. Roedd yr adroddiad yn egluro'r broses gaffael a'r strategaeth lotio ac roedd yn argymhell penodi grŵp cymwys o contractwyr y gallai pob Awdurdod yng ngogledd Cymru neu unrhyw gorff arall yn y sector cyhoeddus ei ddefnyddio, gan osgoi'r broses gaffael hirfaith ac arwain at arbedion sylweddol o ran amser a chost.

Tynnodd y Cyngorydd Mathews sylw at yr Asesiad o Effaith ar Les a'r canlyniadau cadarnhaol o ran nodau lles, creu buddsoddiad mawr yn y rhanbarth a mentrau hyfforddiant. Amlinellodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Pobl yr adroddiad ac arweiniodd y Rheolwr Fframwaith a Chaffael Corfforaethol yr Aelodau trwy fanylion y fframwaith. Gan ymateb i gwestiynau, ailadroddwyd yr ymrwymiad i weithio gyda chwmnïau lleol, gyda'r disgwyliad y byddai cyfran fawr o wariant yn lleol/rhanbarthol ac roedd ymrwymiad gan y cwmnïau mawr o'r tu allan i'r ardal i'r gadwyn gyflenwi leol hefyd a chyflogaeth leol. Cynhyrchwyd adroddiad blynyddol i fesur dangosyddion perfformiad allweddol gan gynnwys gwariant lleol. Roedd dwy fersiwn gyntaf y fframwaith wedi bod yn hynod o lwyddiannus o ran gwariant lleol a buddion cymunedol ac fe'u croesawyd yn fawr. Roedd y Cyngorydd Gill German yn falch bod y gwerthoedd hynny eisoes wedi'u cynnwys yn Sir Ddinbych a bod Llywodraeth Cymru wedi arwain ar y maes hwn gyda Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). Diolchwyd i swyddogion a'r Aelod Arweiniol am eu gwaith diwyd yn hynny o beth.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn –

- (a) cymeradwyo penodi'r contractwyr llwyddiannus fel a nodir yn yr adroddiad, a
- (b) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.40pm.